



RHEOLI PLÂU A HALOGI CEMEGOL



Mae rheoli plâu yn effeithiol yn hanfodol i gadw plâu oddi ar y safle a'u hatal rhag lledaenu bacteria niweidiol. Mae hefyd yn hollbwysig eich bod yn atal cemegau rhag mynd i'r bwyd. Gwylwch y fideo ar hyfforddiant diogelwch bwyd: rheoli plâu.

PWYNT DIOGELWCH	PAM?
Plâu Edrychwch yn rheolaidd am arwyddion o blâu, er enghraifft, yn eich cypyrddau bwyd.	Gall plâu gario bacteria niweidiol.
Gwnewch yn siŵr nad ydych yn gadael unrhyw fwyd na phlatiau budr allan dros nos. Cofiwch lanhau unrhyw fwyd sy'n disgyn ar lawr hefyd.	Mae'r rhain yn fwyd i blâu

MATHAU O BLÂU			
Llygod mawr a llygod Chwiliwch am faw, bwyd wedi'i gnoi neu ddeunydd pecynnu wedi'i gnoi.		Chwilod du a morgrug Chwiliwch am y pryfed eu hunain.	Clêr a phryfed eraill Chwiliwch am bryfed a chynrhon.
			

PWYNT DIOGELWCH	PAM?
Cemegau Darllenwch y label bob amser gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio cemegau. Peidiwch byth â gadael i gemegau/abwyd rheoli plâu, gan gynnwys chwistrelli, ddod i gysylltiad â bwyd, deunydd pecynnu, offer nac arwynebau gwaith. Storiwch gemegau glanhau (e.e. cannydd, glanedydd) ar wahân i fwyd gan wneud yn siŵr eu bod wedi'u labelu'n glir. Cadwch bob cynnyrch glanhau a rheoli plâu allan o gyrraedd plant.	Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod cemegau yn gweithio'n effeithiol. Mae cemegau yn debygol o fod yn wenwynig i bobl. Mae'n bwysig storio cemegau'n iawn er mwyn cadw bwyd a phlant yn ddiogel.

BETH I'W WNEUD OS AIFF PETHAU O CHWITH
<ul style="list-style-type: none">Os byddwch chi'n gweld arwyddion o blâu, ffoniwch eich awdurdod lleol neu gontractwr plâu ar unwaith.Os ydych chi'n credu bod plâu wedi cyffwrdd ag offer, arwynebau gwaith neu gyfarpar, ewch ati i'w golchi a'u diheintio'n drylwyr i atal bacteria niweidiol rhag lledaenu.Os ydych chi'n credu bod plâu wedi cyffwrdd â bwyd mewn unrhyw ffordd, taflwch y bwyd.Os oes perygl bod cemegau glanhau neu gemegau rheoli plâu wedi mynd i'r bwyd, taflwch y bwyd.

Ar eich taflen weithredu, nodwch beth aeth o'i le a sut aethoch chi i'r afael â'r sefyllfa.



Wedi cwblhau'r dull diogel: Dyddiad:	Llofnod:
--------------------------------------	----------